

Pennod 6: Llunio'r cynllun datblygu

CYFLWYNIAD

- 6.1 Roedd Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn wreiddiol yn cynnwys (yn Rhan 2) yr holl ddeddfwriaeth sylfaenol a oedd yn ymwneud â llunio'r cynllun datblygu. Yna, cyflwynodd Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 systemau newydd i Gymru a Lloegr; roedd Rhan 6 o'r Ddeddf honno yn cynnwys y system cynlluniau datblygu i Gymru. Yn fwy diweddar, cafodd ei diwygio'n sylweddol gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.
- 6.2 Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys polisiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a chynigion ar gyfer defnydd tir yn yr ardal berthnasol. Yng Nghymru, mae'n cynnwys
- 1) y fframwaith datblygu cenedlaethol (a olynodd Gynllun Gofodol Cymru),¹
 - 2) cynlluniau datblygu strategol (lle maent yn bodoli),²
 - 3) cynlluniau datblygu lleol.³
- 6.3 Defnyddir pob un o'r rhain er mwyn helpu i roi arweiniad i awdurdodau cynllunio ac arolygwyr wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, ac mewn nifer o sefyllfaoedd eraill (gweler Pennod 5).
- 6.4 Mae pob un o elfennau'r cynllun datblygu a restrir uchod yn ymwneud â haen wahanol o lywodraeth. Mae'r fframwaith datblygu cenedlaethol yn ddatganiad o bolisiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ynghylch defnyddio a datblygu tir, a datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Mae cynlluniau datblygu strategol yn cynnwys sut mae'r polisiau hynny'n gweithio ar lefel ranbarthol, ac mae cynlluniau datblygu lleol yn cyfeirio at bolisiau a chynlluniau awdurdodau cynllunio lleol.

CYNNWYS YN Y COD

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (cynlluniau datblygu), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, gael ei hailddatgan yn y Cod Cynllunio, yn ddarostyngedig i unrhyw drefniadau trosiannol angenrheidiol sy'n ymwneud â Chynllun Gofodol Cymru a'r cynigion yng ngweddill y Bennod (Cwestiwn 6-1 o'r Ymgynghoriad).

¹ Adrannau 60 i 60C o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a ddiwygiwyd gan adran 3 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.

² Adrannau 60D i 60J o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a ddiwygiwyd gan adran 4 i 6 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.

³ Adrannau 61 i 72 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a ddiwygiwyd gan adran 11 i 15 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.

- 6.5 Ym Mhennod 6 o'r Papur Ymgynghori, nodwyd gennym mai dim ond yn ddiweddar y gwnaed newidiadau drwy Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, nad oedd rhai ohonynt wedi dod i rym eto. Felly, awgrymwyd y byddai'n gynamserol gwneud argymhellion ynglŷn ag unrhyw newidiadau mawr pellach; ac mai ychydig iawn o ddiwygio sydd ei angen ar gyfer y maes cyfreithiol hwn ar hyn o bryd.⁴
- 6.6 Nodwyd hefyd fod testun terfynol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn debygol o gael ei gyhoeddi yn 2020, ac nad oes unrhyw gynlluniau datblygu strategol wedi'u paratoi eto;⁵ a bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r gyfraith sy'n ymwneud â llywodraeth ranbarthol. Gallai pob un o'r rhain arwain at bwysau pellach am newid deddfwriaethol, ond ni fyddai'n briodol ystyried newidiadau posibl ar hyn o bryd.⁶
- 6.7 Felly, canolbwyntiodd cwestiynau'r ymgynghoriad ar ailddatgan y gyfraith bresennol, neu gwnaethant argymhellion ar gyfer diwygiadau manylach. Ac felly ein prif gynnig oedd y dylai'r darpariaethau statudol sy'n ymwneud â llunio'r cynllun datblygu gael eu hintegreiddio unwaith eto â'r brif Ddeddf cynllunio.
- 6.8 Roedd pob un o'r 42 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad yn cefnogi hyn mewn egwyddor. Gwnaeth llawer ohonynt ein hannog i adolygu'r dyddiad dod i ben ar gyfer cynlluniau datblygu lleol, gyda Siruis Planning yn argymhell y dylid mewnosod gofyniad i gynlluniau datblygu lleol gael eu hadolygu bob pum mlynedd. Awgrymodd Cyngor Caerdydd y dylid dileu'r dyddiad dod i ben. Ar y llaw arall, awgrymodd Huw Williams (Geldards LLP) fod gofyniad ychwanegol nad yw cynlluniau lleol yn fwy na 100 tudalen "would help focus policy planner's minds".
- 6.9 Rydym yn deall yr awydd am ofyniad statudol ynglŷn â pharhad y cynllun. Fodd bynnag, mae'n annhebygol o fod yn addas ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol. Os bydd gofynion o'r fath (o leiaf ar bapur) yn rhy gyfyngol, mae'n rhaid cynnwys dull o allu "arbed" cynlluniau nad ydynt yn gyfredol mwyach; caiff gweithdrefnau o'r fath yn defnyddio'n rhy aml, felly mae'r gofyniad yn un aneffeithiol. Felly, yn ein barn ni, canllawiau wedi'u geirio'n gryf sydd fwyaf priodol.
- 6.10 Nodwn fod Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal adolygiad o'i llawlyfr ar gynlluniau datblygu lleol. Mae'r ddogfen hon yn debygol o gynnwys canllawiau manwl am ddymunoldeb parhad a maint cynllun datblygu lleol, ac felly byddai'n fwy priodol mynd i'r afael â'r materion hyn yn uniongyrchol yn y cyd-destun hwnnw.
- 6.11 Felly, credwn o hyd y dylai'r Bil gynnwys darpariaethau Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 sy'n ymwneud â llunio cynlluniau datblygu, fel y'i diwygiwyd neu fel y'i hamnewidiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, yn ddarostyngedig i newidiadau fformatio priodol i'w gwneud yn unol â gweddill y Bil. Bydd hyn, yn syml, yn ailddatgan y gyfraith bresennol, ond bydd eu cynnwys yn y prif Fil Cynllunio yn welliant sylweddol.

⁴ Papur Ymgynghori, para 6.6.

⁵ Ymhlith yr ardaloedd y rhagwelwyd y byddai cynlluniau datblygu strategol ar eu cyfer roedd Caerdydd, Abertawe a choridor yr A55 yn y gogledd.

⁶ Papur Ymgynghori, paragraffau 6.12 i 6.26.

Argymhelliad 6-1.

Argymhellwn y dylai Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (cynlluniau datblygu), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, gael ei hailddatgan yn y Bil, yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol sy'n ymwneud â Chynllun Gorfodol Cymru a'r cynigion yng ngweddill y Bennod.

CYNLLUNIAU DATBLYGU: DARPARIAETHAU ERAILL

Cynigiwyd dros dro gennym na ddylai'r darpariaethau a geir ar hyn o bryd yn Neddf Cynllunio ac Ynni 2008 gael eu hailddatgan yn y Bil; ac y dylid rhoi ystyriaeth maes o law i gynnwys darpariaethau cyfatebol mewn canllawiau, a gwneud diwygiadau priodol i'r Rheoliadau Adeiladu (Cwestiwn 6-2 o'r Ymgynghoriad).

- 6.12 Mae Deddf Cynllunio ac Ynni 2008 yn rhoi pwerau i awdurdodau cynllunio gynnwys gofynion rhesymol yn eu cynlluniau datblygu lleol, mewn perthynas â defnyddio ynni adnewyddadwy lleol neu ffynonellau carbon isel, a chydymffurfiaeth â safonau effeithlonrwydd ynni.⁷
- 6.13 Yn y Papur Ymgynghori, awgrymwyd gennym y dylai'r darpariaethau hyn gael eu dosbarthu'n ganllawiau, am eu bod yn annog a chaniatáu cynnwys polisïau o'r fath, yn hytrach na gosod unrhyw rwymedigaethau llymach ar awdurdodau cynllunio. O blith y 33 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad, roedd 31 yn cytuno â'r awgrym hwn.
- 6.14 Ymhlith y rhai a gytunodd, roedd gwahaniaeth barn rhwng y rhai, fel CS Caerfyrddin, a awgrymodd nad oedd unrhyw werth o gwbl i'r darpariaethau bellach, ac eraill, fel Cyngor Dinas Casnewydd, a awgrymodd fod rhyw werth iddynt o hyd, ond y dylid eu cynnwys ar ffurf canllawiau.
- 6.15 Awgrymodd Cyngor Sir Caerfyrddin fod y dyletswyddau yn y Ddeddf Cynllunio ac Ynni "no longer appear to be needed...in view of the evolution of the national planning policy context and building regulations in Wales". Cytunodd Cymdeithas y Cyfreithwyr a Huw Williams, gan nodi "such considerations now fall to be considered...in the discharge of the duties under the Well-Being [of Future Generations] Act 2015".⁸
- 6.16 Awgrymodd sawl ymgynghorai, gan gynnwys Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru ("POSW"), Cyngor Sir Fynwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro "planning authorities [would] struggle...if expectations are not enshrined". Awgryma hyn fod rhyw werth o hyd i'r darpariaethau. Dywedwyd hefyd mai "potential requirements" oedd y darpariaethau, roedd angen eu trafod ar lwyfan cenedlaethol, gan ddefnyddio sylfaen dystiolaeth genedlaethol er mwyn eu datblygu.
- 6.17 Mae cynnwys a chwmpas canllawiau Llywodraeth Cymru y tu hwnt i gwmpas y prosiect hwn; ond rydym o'r farn y byddai'n fwy priodol ymdrin â'r materion sy'n

⁷ Adran 1, Deddf Cynllunio ac Ynni 2008.

⁸ Adrannau 3(2)(a) a 4, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

ddarostyngedig i Ddeddf Cynllunio ac Ynni 2008 yno, yn hytrach nag mewn deddfwriaeth. Fel y nodir uchod, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal adolygiad o'i llawlyfr ar gynlluniau datblygu lleol. Felly, credwn o hyd na ddylai darpariaethau Deddf 2008 gael eu cynnwys yn y Bil Cynllunio, ac y dylid eu diddymu.

Argymhelliad 6-2.

Argymhellwn y canlynol:

- (1) **dylai'r darpariaethau a geir ar hyn o bryd yn Neddf Cynllunio ac Ynni 2008 gael eu diddymu; a dylid**
- (2) **rhoi ystyriaeth maes o law i'r canlynol:**
 - **cynnwys darpariaethau cyfatebol mewn canllawiau;**
 - **gwneud diwygiadau priodol i'r Rheoliadau Adeiladu.**

Asesiad amgylcheddol strategol

Yng ngoleuni bodolaeth dyletswyddau i gynnal arfarniadau cynaliadwyedd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a chynlluniau datblygu strategol a lleol (o dan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ar hyn o bryd), gwahoddwyd sylwadau ar b'un a oes angen gofyniad o hyd i gynnal arfarniad ar wahân o'u heffaith amgylcheddol, fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd gan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004; p'un a oes angen Rheoliadau 2004 o hyd mewn perthynas â chynlluniau a rhaglenni heblaw cynlluniau datblygu; a ph'un a oes angen diwygio neu symleiddio Rheoliadau 2004 mewn unrhyw ffordd (Cwestiwn 6-3 o'r Ymgynghoriad).

- 6.18 Yn ein Papur Ymgynghori, nodwyd y gorgyffwrdd rhwng asesiadau amgylcheddol strategol ac arfarniadau o gynaliadwyedd. Gofynnwyd i ymgynghoreion ynghylch gwerth cael dwy weithdrefn ar wahân, a gwahoddwyd sylwadau ynghylch y posibilrwydd o ddileu'r gofyniad ar gyfer asesiadau amgylcheddol statudol, yn amodol ar gyd-drafodaethau o ran ymadawriad arfaethedig y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.
- 6.19 Dadleuodd saith o'r 36 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn o blaid dileu'r gofyniad ar gyfer asesiadau amgylcheddol strategol, yn bennaf am y rhesymau a nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori.
- 6.20 Fodd bynnag, cyflwynodd naw o'n 36 o ymatebwyr ymatebion hir yn nodi gwerth yr asesiadau amgylcheddol strategol o hyd. Ymhlith y rhain, dadleuodd y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar ("RSPB"), Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Parciau Cenedlaethol Cymru oll y byddai dileu'r weithdrefn yn creu canfyddiad o wanhau blaenoriaeth neu bwysigrwydd ystyriaethau amgylcheddol. Awgrymwyd ganddynt fod gan arfarniadau o gynaliadwyedd, sy'n cynnwys sawl ffrwd o ystyriaethau (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol), ffocws llai uniongyrchol ar faterion a phryderon amgylcheddol.

- 6.21 Dadleuodd yr RSPB hefyd fod asesiadau amgylcheddol strategol yn cael eu paratoi ar gyfer amrywiaeth ehangach o gynlluniau a rhaglenni nag arfarniadau o gynaliadwyedd,⁹ ac felly eu bod yn arwain at ddull gweithredu mwy “cydgysylltiedig”. Dadleuodd “it is essential that [the] broader application is retained so the environmental effects of different types of plans (including key Government plans) are fully considered”. A chodwyd dadleuon tebyg yn yr ymatebion ansicr a gyflwynwyd gan 20 o ymgynghorion eraill.
- 6.22 Nododd sawl ymgynghorai hefyd nad yw'r disgrifiad o'r ddwy weithdrefn fel gweithdrefnau cwbl ar wahân i'w gilydd yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol. Awgrymodd sawl ymatebydd, gan gynnwys yr Arolygiaeth Gynllunio, PEBA a CBS Rhondda Cynon Taf, fod y ddau asesiad yn cael eu cynnal o dan broses gyfun yn y bôn. Caiff yr un sylfaen dystiolaeth, gwybodaeth, ymgynghorion ac adroddiad eu defnyddio i fodloni gofynion statudol y naill a'r llall mewn perthynas â pharatoi cynlluniau datblygu lleol a'r fframwaith datblygu cenedlaethol.
- 6.23 At hynny, mae'n debygol y caiff Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Statudol eu hystyried yn fanylach maes o law, fel rhan o'r adolygiad o is-ddeddfwriaeth ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.
- 6.24 Yng ngoleuni'r ystyriaethau hyn, nid ydym yn gwneud unrhyw argymhelliad i ddileu'r gofyniad ar gyfer asesiadau amgylcheddol strategol yng Nghymru; nac ychwaith unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Statudol.
- 6.25 Fodd bynnag, nodwn fod Cyfarwyddeb berthnasol yr UE, y mae'r gofyniad ar gyfer asesiadau amgylcheddol strategol yn deillio ohoni, yn datgan y dylai gofynion gael eu hintegreiddio â gweithdrefnau sy'n bodoli eisoes neu eu hymgorffori mewn gweithdrefnau a sefydlir yn benodol gyda'r bwriad o osgoi dyblygu.¹⁰ Nododd sawl ymgynghorai nad oeddent yn ymwybodol bod modd iddynt gyflwyno cynlluniau AAS/arfarniadau o gynaliadwyedd integredig, nac ychwaith eu bod wedi cael anhawster ymgymryd â'r ddau gynllun ar yr un pryd. Felly, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ddrafftio unrhyw newidiadau i'r llawlyfr ar gynlluniau datblygu yn y dyfodol yn y fath fodd ag y bydd yn lleihau baich rheoliadol paratoi arfarniadau o gynaliadwyedd i'r eithaf.

⁹ Mae asesiadau amgylcheddol strategol yn ofynnol ar gyfer “plans and programmes prepared or adopted at national, local or regional levels” ar gyfer prosiectau sy'n cael eu paratoi ar gyfer “agriculture, forestry, fisheries, energy, industry, transport, waste management, water management, telecommunications, tourism, town and country planning or land use”, ond dim ond wrth baratoi cynlluniau datblygu lleol a'r fframwaith datblygu cenedlaethol y mae angen arfarniadau o gynaliadwyedd.

¹⁰ Cyfarwyddeb 2001/42 ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd (27 Mehefin 2001).

Argymhelliad 6-3.

Argymhellwn y dylai'r gofyniad yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ynghylch arfarnu cynaliadwyedd cynlluniau datblygu gael ei gario ymlaen i'r Bil Cynllunio, ond:

- (1) **y dylai'r canllawiau ar weithredu'r gofyniad hwnnw gael eu drafftio er mwyn lleihau'r baich i'r eithaf yn ymarferol;**
- (2) **y dylai'r sefyllfa ynglŷn â'r gofyniad hwnnw gael ei hadolygu yng ngoleuni unrhyw adolygiad arfaethedig o'r Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Statudol.**

Ymchwiliadau

Cynigiwyd dros dro gennym na ddylai adran 114 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (cyfrifoldeb am y weithdrefn mewn ymchwiliadau i gynlluniau lleol) gael ei hailddatgan yn y Bil Cynllunio (Cwestiwn 6-4 o'r Ymgynghoriad).

- 6.26 Mae adran 114 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi bod archwilio cynlluniau datblygu lleol o fewn cylch gwaith y Cyngor Tribiwnlysoedd (a ddisodlwyd yn ddiweddarach gan y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, a ddiddymwyd gan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011). Fodd bynnag, nodwyd gennym mai Gweinidogion Cymru sy'n pennu rheolau gweithdrefnol archwiliadau o'r fath yn ymarferol.¹¹
- 6.27 Cytunodd pob un o'r 24 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r pwynt hwn yn unfrydol â'r awgrym na ddylai adran 114 o Ddeddf 2004 gael ei hailddatgan yn y Bil Cynllunio, gan nad yw o ddefnydd nac effaith ymarferol mwyach.

Argymhelliad 6-4.

Argymhellwn na ddylai adran 114 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (cyfrifoldeb am y weithdrefn mewn ymchwiliadau i gynlluniau lleol) gael ei hailddatgan yn y Bil Cynllunio.

Malltod cynllunio

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai Pennod 2 o Ran 6 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (hysbysiadau malltod) ac Atodlen 13 i'r Ddeddf gael eu hailddatgan yn y Bil Cynllunio ar eu ffurf bresennol yn fras (Cwestiwn 6-5 o'r Ymgynghoriad).

- 6.28 Mae hysbysiadau malltod yn codi mewn amgylchiadau lle mae cynnig ar gyfer prosiect cyhoeddus neu ddatblygiad – na fyddai'n cael ei weithredu am beth amser eto – yn peri i'r tir dan sylw fod yn anwerthadwy bron. Un o'r amgylchiadau cymhwys

¹¹ OS 2005/2839.

yw lle mae'r tir dan sylw wedi'i nodi neu wedi'i neilltuo mewn cynllun datblygu. Mae Pennod 2 o Ran 6 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu i berchenogion tir orfodi awdurdodau lleol i brynu tir yn yr amgylchiadau a nodir yn fanwl yn Atodlen 13 i'r Ddeddf.

- 6.29 Nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori mai anaml iawn y caiff y darpariaethau hyn eu defnyddio'n ymarferol; ond awgrymwyd bod angen iddynt aros ar y llyfr statud. Cytunodd y 25 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad yn unfrydol â'r cynnig i gario'r gyfraith mewn perthynas â hysbysiadau malltod ymlaen ar ei ffurf bresennol.
- 6.30 Er ei bod yn cytuno â'n cynnig mewn egwyddor, rhoddodd y CLA ddau awgrym ychwanegol:
- 1) y dylid ymestyn cwmpas hysbysiadau malltod i gynnwys eiddo gwag, neu'r eiddo a ddefnyddir fel swyddfeydd, yr effeithir arno gan gynlluniau statudol;
 - 2) y dylid dileu neu gynyddu'r terfyn uchaf ar y gwerth blynyddol.
- 6.31 Cafodd hysbysiadau malltod eu cyflwyno'n wreiddiol gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1959, gyda'r bwriad o roi rhyddhad i "owner-occupiers, whether residential, agricultural or commercial, and in the case of commercial owner-occupiers only the 'small men'".¹² Er bod dibrisio gwerthoedd tir sy'n deillio o brosiectau cyhoeddus yn effeithio ar berchenogion eiddo amhreswyl mwy o faint yn yr un modd, gallai ymestyn cwmpas rhwymedigaethau awdurdodau lleol fod yn hynod ddud ac atal datblygiadau cyhoeddus.
- 6.32 Caiff y terfyn ar werth blynyddol eiddo amhreswyl y gellir cyflwyno hysbysiad malltod yn ei gylch ei bennu gan orchymyn – Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2011.¹³ Caiff hwnnw ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd.
- 6.33 Felly, yn ein barn ni, dylai'r cynnig a fu'n destun ein cwestiwn yn yr ymgynghoriad fynd ei flaen fel y saif, fel ailddatganiad o'r gyfraith bresennol.

Argymhelliad 6-5.

Argymhellwn y dylai Pennod 2 o Ran 6 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (hysbysiadau malltod) ac Atodlen 13 i'r Ddeddf gael eu hailddatgan yn y Bil Cynllunio ar eu ffurf bresennol.

¹² Davies, '*Law of compulsory purchase and compensation*' (5th Argraffiad) (Butterworths, 1994).

¹³ OS 2011 Rhif 435. Caiff hwn ei ddiweddarau, yn ddiau, yn unol â'r Gorchymyn cyfatebol sy'n gymwys yn Lloegr (OS 2017 Rhif 472).